# Dinesydd Dydd Mawrth

8 Awst 1978

10c


# Y Gymdeithas yn codi stêm!




*Pabell y Rheilffyrdd ar ôl y brotest*

**Yn dilyn gwrthdystiad gan aelodau Cymdeithas yr Iaith ym mhabell y Rheilffyrdd Prydeinig ar faes yr Eisteddfod brynhawn ddoe, cymerwyd un person i'r ddalfa, y mae un person yn yr ysbyty a nifer o bobl eraill wedi gorfod derbyn cymorth cyntaf. Anafodd Gareth Richards, o Gastell Nedd, ei ysgwydd yn ddrwg pan daflwyd ef ar lawr gan yr heddlu, a dywedodd nifer o aelodau'r Gymdeithas yn ddiweddarach na allant gofio'r heddlu yn ymddwyn mor frwnt ac afresymol o'r blaen.**

Cymerwyd Wayne Williams, Aberystwyth, i'r ddalfa ar ôl iddo wneud araith yn tynnu sylw at ddiffyg defnydd y Rheilffyrdd Prydeinig o'r iaith Gymraeg yn y babell ar y maes fel yn y gorsafoedd rheilffordd led-led y wlad, er i Gymdeithas yr Iaith fod yn ymgyrchu i'w Cymreigio er 1974.

Yn dilyn y gwrthdystiad, pan rwygwyd ffurflenni a phosteri uniaith Saesneg, a dymchwel byrddau arddangos oedd â'r Gymraeg mewn man israddol arnynt, y mae 'na amheuaeth a all y babell ail-agor i'r cyhoedd. Yn ôl staff y Rheilffyrdd Prydeinig gwnaed gwerth o leiaf £2,000 o ddifrod.

Rhybyddiodd Wayne Williams yn ei araith nad y Rheilffyrdd Prydeinig oedd yr unig sefydliad ar faes y Brifwyl oedd yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg; enwodd Fane Barclays fel enghraifft arall. Fe fydd Cymdeithas yr Iaith yn anfon cwyn i Gyngor yr Eisteddfod yn gresynu iddynt ganiatáu i'r Rheilffyrdd Prydeinig arddangos defnyddiau uniaith Saesneg ar y maes.

Neithiwr, gollyngwyd Wayne Williams yn rhydd ar feichniaeth, gyda'r Parch. Raymond Williams yn mynd yn feichiau drosto. Bydd yn ymddangos ger bron llys arbennig ar Awst 18fed, ynghyd ag unrhyw un arall fydd wedi troseddu yn ystod yr Eisteddfod ac sy'n dymuno cael achos yn Gymraeg.

## Camp Fawr

**Braf oedd cael rhywun yn taro i mewn i'r babell i ddiolch i'r *Dinesydd* "am eich holl help gyda gweithgareddau'r Tyllgoed gogyfer a'r Eisteddfod Genedlaethol". Llwyddodd yr ardal go Seisnigaidd hon o Gaerdydd (ardal ddigon tebyg i Drelai mewn llawer ffordd) godi'r cyfanswm gwych o £980 tuag at y Steddfod, a syndod mawr i'r holl drefnwyr oedd gweld gymaint o frwdfrydedd a chefnogaeth a oedd yno i'r Eisteddfod Genedlaethol.**




## A OES HEDDWCH?

Ymhlith y cyfranwyr i gyllid yr Eisteddfod ceir Mr a Mrs Neil Kinnock ac Ioan Evans A.S., Aberdâr. Llai annisgwyl yw cyfraniadau aelodau seneddol megis Caerwyn Roderick a Tom Ellis, ond tybed a'i fel 'Anhysbys' y cyfrannodd seneddwyr enwog (ac anenwog) Dinas Caerdydd?

************

## GWERS GWERSYLLA

Mae angen gwers gwersylla iawn ar y trefnwyr. Pam mai'r campiwr druan sy'n gorfod dioddef a chael y fargen salaf flwyddyn ar ôl blwyddyn?

## MAES Y GAD

Pa hanesydd lleol a benderfynodd mai ar faes cad traddodiadol llabystiaid Llanrymni a'r gelyn Pentwyn-Llanedeyrn y dylai'n hieuenctid roi eu pennau i lawr? Cysgwch yn dawel yn y 'Post House' 'na!

# Cefnogi'r cenhedloedd bach

**Jorgen Hansen. Enw anghymreig a dweud y lleia. Ond, mae Jorgen yn un o bedwar Cymro sy'n cynnal pabell y Gymuned Ewropeaidd ar y maes eleni — y tro cynta erioed i'r Gymuned ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol.**

Cymro mabwysiedig yw Jorgen, yn ôl ei ddiffiniad ei hun. Fe'i magwyd yn Denmarc, a daeth i wybod am Gymru a'r Gymraeg wrth ddod yma ar wyliau tra'n blentyn ysgol. A phan ddaeth yn ddisgybl chweched dosbarth i goleg Iwerydd yn Sain Dunwyd, fe fwrodd ati i ddysgu Cymraeg, ond am nad oedd y Gymraeg yn rhan o'r cynllun gwaith, bu'n rhaid i Jorgen ddilyn cwrs lefel O mewn Cymraeg ar ei liwt ei hunan. Ond, daeth tro ar fyd ym 1971 pan aeth yn fyfyriwr i goleg prifysgol Cymru, Aberystwyth lle y dysgodd Gymraeg yn eitha rhugl. Mae erbyn hyn yn un o brif gyfieithwyr Comisiwn y Gymuned Ewropeaidd ym Mrwsel — yn medru pum iaith, Cymraeg Ffrangeg, Daneg, Almaeneg a Saesneg — ac yn gyfarwydd i bawb fel y "Danwr sy'n siarad Cymraeg" a'r chwaraewr "neng" enwog. "Neng" i'r anwybodus yn ein plith, yw gair myfyrwyr Aberystwyth am "snooker".

Bu coleg prifysgol Aberystwyth yn fagwrfa i'r tri arall sy'n cynnal pabell y gymuned ar y maes — Aneirin Rhys Hughes, Hywel Ceri Jones a Gwyn Morgan — bu'r tri, ar wahanol adegau, yn llywyddion undeb myfyrwyr Aberystwyth.

O Abertawe y daw Aneirin a Hywel — y naill o Landŵr a'r llall o Glydach. Cynghorydd i'r adran wybodaeth yw Aneirin ac yn un o bedwar prif swyddog yr adran honno. Fedrwch chi ddim peidio â'i adnabod wrth ymweld â'r babell — fe yw'r un â'r lleia o wallt!

Bu'n byw ym Mrwsel er 1973 a chyn hynny yn Rhufain a Singapore. Teimla Aneirin fod yr Eisteddfod "yn un o'r pethau pwysica o safbwynt diwylliant yn y Gymuned Ewropeaidd. Os oes dyfodol i Ewrop," meddai, "rhaid bod dyfodol sy'n cynnwys lleiafrifoedd o safbwynt iaith a diwylliant." Pennaeth yr adran sy'n gyrfiol am addysg uwch a materion ieuenctid yw Hywel Ceri Jones, sy hefyd wedi ymgartrefu ym Mrwsel ers pum mlynedd. Mae'n fab i'r diweddar Barchedig Gwilym Ceri Jones, a ennillodd gadair Eisteddfod Pwllheli ym 1955 gyda'r awdl "Gwrtheyrn". Mae Aneirin a Hywel yn medru wyth iaith rhyngddyn nhw. Mae ganddynt ddau o blant yr un — a'r pedwar yn rhugl mewn tair iaith — Cymraeg, Ffrangeg a Saesneg.

Y mwya adnabyddus o'r pedwar i ni, efallai, yw Gwyn Morgan, am ma fe yw cynrychiolydd y Gymuned Ewropeaidd yng Nghymru gyda'i bencadlys yng Nghaerdydd. Teimla Gwyn, sy'n hanu o Aberdâr, fod y Gymuned yn rhoi cefnogaeth lwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol trwy ddanfon tri o'i phrif swyddogion yma o Frwsel. Bwriad sefydlu'r babell yng Nghaerdydd, meddai, yw dangos dylanwad y Gymuned Ewropeaidd ar Gymru o ran datblygiad economaidd a diwylliant, a'r prif themau fydd perthynas y Gymuned â'r diwydiannau dur, glo a ffermio. Bydd ffilm gartŵn o adeiladwaith a gweithgareddau'r Comisiwn i'w gweld yn y babell, ond yn fwy na hynny, gobaith Gwyn Morgan, yw y bydd presenoldeb cynrychiolwyr y Gymuned ar y maes yr wythnos yma yn profi fod y gwledydd sy ar ymylon Ewrop yn ddaearyddol yr un mor bwysig i'r Gymuned â'r gwledydd sydd yn agos at ei chalon — yn ddaearyddol.

**SAIN — RECORDIAU'R DYDD**

CANU CAERNARFON (ALBWM DDWBL STEDDFOD '79)

SHWN — "CARIAD/RHEDA!" Sain (68S)

NOSON LAWEN — "Y "Y DIDDANWYR" Sain (1124D)

**AR WERTH YM MHABELL SAIN**

**DEWCH HEIBIO!**

sain

# Dianc o'r maes

Rhag ofn y byddwch yn dechrau cael llond bol o fynd nôl a 'mlaen i Bentwyn erbyn dydd Mercher, beth am wrando ar ddwy gystadleuaeth ddiddorol a gynhelir yng Nghapel Y Tabernacl yn yr Hayes yng nghanol y ddinas?

Am ddeg o'r gloch ar fore Mercher cynhelir cystadleuaeth unawd ar yr organ i ymgeiswyr dan 19 oed. Y darn prawf yw 'Processional' o waith William Mathias ynghyd ag unrhyw ddarn arall o ddetholiad o weithiau ar gyfer yr organ a nodwyd gan osodwyr y gystadleuaeth.

Yn dilyn am 11 o'r gloch, y gystadleuaeth agored, a'r darn prawf yw'r Ffiwg yn Eb (St. Anne) o waith J.S. Bach.

Dyma gyfle i dreulio bore hamddenol yn un o addoldai harddaf Caerdydd yn gwrando ar organyddion yn chwarae organ a gydnabyddir fel un o oreuon Cymru. Disgwylir George Guest, y Cymro o Wrecsam sy'n organydd yng Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt i feirniadu.

# Talu'r beirniad

A wyddoch chi mai £75 a delir i feirniad am waith wythnos yn yr Eisteddfod. Tâl digon anrhydeddus ar yr wyneb, ond mae'r £75 yn cynnwys treuliau teithio a llety am yr wythnos. Go brin y gellir hawlio bod y beirniaid cerdd ac adrodd yn elwa ar draul yr Eisteddfod.

# Gohebydd yn priodi

Yng Nghapel y Tabernacl, Caerdydd, ar Sadwrn, Awst 5, 1978 unwyd mewn priodas Ceri Mair, merch Haydn a Menna Thomas, Gerddi Jellicoe, Caerdydd a Myrfyn, mab y Parchedig a Mrs Arthur Jones, Llanrhaeadr Dyffryn Clwyd. Gwasanaethwyd gan Weinidog y Tabernacl, y Parchedig Raymond Williams ynghyd â'r Parchedig Arthur Jones, ac Arwel Hughes oedd wrth yr organ. Yn ffreutur 'UWIST' y cynhaliwyd y wledd, a bu Neithior yn Llanbedr y Fro gyda'r hwyr. Y morynion oedd Eleri Evans, Sian Dyer ac Anna Lindsey, a chefnogwyd Myrfyn gan ei frawd Emrys.

Gan mai gwryw yw'r gohebydd, rhaid i'r rhai hynny ohonoch sydd â diddordeb mewn gwisgoedd fodloni gyda'r wybodaeth fod y briodasferch a'r morynion yn edrych yn bert iawn, ac roedd yr ychwanegiadau cynorthwyol yn siwtio i'r dim.


Newydd orffen cwrs yng Ngholeg y Normal, Bangor, mae Ceri ac mae wedi derbyn swydd athrawes yn ysgol Penbryn, Caerdydd. Mae Myrfyn ar staff adran newyddion y BBC yng Nghaerdydd, ac fe fydd y ddau yn ymgartrefi ym Mhentwyn — nepell o faes yr Eisteddfod.

Mae nhw wedi diflannu i dawelwch Dyfed i fwrw swildod, ond fe fyddant nôl ar faes yr Eisteddfod erbyn dydd Iau. Bendith arnynt.



*Darllenwr mwya'r* Dinesydd. *Ewch i'w weld ym mhabell yr Urdd.*

**Theatr yr Ymylon**
**yn**
**Y Pembroke Terrace**
**Churchill Way, Cardiff**



**Rhydwen Williams fel Daniel Owen**

**yn darllen**

# "HUNANGOFIANT RHYS LEWIS"

**Llun, Awst 7fed — Dydd Sadwrn Awst 12fed. 7.45p.m.**
**Tocynnau £1.00. Plant 50c.**
**Swyddfa tocynnau, Caerdydd 372231**

# LLYS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cefnogwch waith yr Eisteddfod
Ymunwch â chorff llywodraethol
y Brifwyl

Prynwch gyhoeddiadau'r Llys:
YR EISTEDDFOD
gan
Hywel Teifi Edwards
(Pris £1.75)

Cyfrol Medal Ryddiaith Wrecsam:
TRIPTYCH
gan
R. Gerallt Jones
(Pris £1.00)

**FFURFLEN AELODAETH**

Dymunaf fod yn aelod o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol

ENW: ..........................................................

ENW LLAWN:

CYFEIRIAD: ................................................

..................................................................

..................................................................

Amgaeaf danysgrifiad o:

£2 (lleiafswm) am aelodaeth blwyddyn
£20 am aelodaeth oes

**Anfoner at:** D. Hugh Thomas, Ysgrifennydd Aelodaeth, Llanfaes, 50 Church Road, Baglan, PORT TALBOT.

**NEU:** GADEWCH YR AMLEN YN *Y BABELL YMHOLIADAU* AR Y MAES.

UCAC

## Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Yr unig Undeb athrawon sydd 100% o blaid Cymreictod. Yr unig Undeb Llafur annibynnol sydd â'i Bencadlys yng Nghymru ac sy'n buddsoddi ei arian i gyd yng Nghymru. Manylion pellach oddi wrth: Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 3AJ. (Ffôn: 494692)

# Y BRIFWYL O'R BRIFDDINAS

Gwasanaeth cynhwysfawr HTV Cymru o Faes Eisteddfod Caerdydd i Gymru benbaladr.

POB BORE o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn gan ddechrau am 10a.m. bob dydd, dwy awr o'r Wyl yn fyw o lwyfan yr Eisteddfod.

Y PRIF SEREMONÏAU — dydd Mawrth Y Coroni, dydd Iau Y Cadeirio, dydd Gwener Croesawu'r Cymry Alltud — oll ar HTV Cymru.

PENAWDAU'R NEWYDDION am 1.20p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener o Faes y Brifwyl.

Y DYDD a REPORT WALES. *Y Dydd* o'r Maes bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener am 6p.m. *Report Wales* am 6.18p.m.

RHAGLEN DDWYIEITHOG EI CHYFLWYNIAD bob nos am 6.30p.m. o nos Fawrth hyd nos Wener, ac ar nos Sadwrn am 5.55p.m.

Y GADAIR A GWOBR GOFFA DANIEL OWEN — Caiff HTV Cymru yr anrhydedd o gyflwyno'r gadair a hefyd gwobr Goffa Daniel Owen yng nghystadleuaeth y nofel.

YR WYTHNOS. Rhifyn arbennig o'r *Wythnos* nos Lun yr Wyl am 8.30p.m. yng nghwmni Cenwyn Edwards.

AR Y MAES — gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg, Pabell Groeso, Pabell y Plant, taflen y dysgwyr, lliw a llun stiwdio a baneri'r Cwmni — cyfraniad i fywyd, gweithgarwch a sioncrwydd y Maes.

Ymunwch â ni

YN DATHLU DENG MLYNEDD O WASANAETH
o Faes y Brifwyl ac o'r Ganolfan Deledu
yng Nghaerdydd.

HTV
CYMRU WALES

**CROESO I FAES YR EISTEDDFOD**
OND COFIWCH
AM Y PETHAU A GYNHELIR
MEWN MANNAU ERAILL

**Y THEATR NEWYDD**

Nos Lun, Nos Fawrth — Y TŴR (Gwenlyn Parry)
Cwmni Theatr Cymru

Nos Fercher, Nos Iau — OPERA ROC — DIC PENDERFYN
Cwmni Theatr yr Ymylon

Nos Wener, Nos Sadwrn — PASIANT CYFLWYNO CAERDYDD
Plant Ysgol Bryntaf

**THEATR BUTE**
(Coleg Cerdd a Drama)

Nos Lun, Nos Fawrth, Nos Fercher — BLODEUWEDD (Saunders Lewis)
CWMNI COLEG ABERYSTWYTH

**COLEG CYNCOED**

Tri Chyngerdd Siambr
(5.00p.m.)
Mawrth: Offerynwyr Coleg Cerdd Cymru
Mercher: Consort Pres Cymreig
Iau: Côr Telynau Ann Griffiths

**LLYFRGELL SALISBURY**
**(Coleg y Brifysgol)**

DRWY WYTHNOS YR EISTEDDFOD
ARDDANGOSFA O LYFRAU PRIN

**THEATR Y SHERMAN**

Nos Lun — Nos Fawrth — Y LLINYN ARIAN (ffilm)

Nos Fercher — EQUUS (Peter Shaffer)
Cwmni Coleg y Drindod

Nos Iau — CYSTADLEUAETH ACTIO
Cwmni Heol y Crwys
Cwmni Llwyndyrus
Cwmni'r Dewin

Nos Wener, Nos Sadwrn — NOS YSTWYLL (cyf. J.T. Jones o *Twelfth Night*.)
Cwmni'r Eisteddfod

**THEATR YR ARENA**
(yn adeilad y Sherman)

Nos Lun — RHWNG BYW A MARW
(detholion o ddramâu Samuel Beckett)

Nos Fawrth, Nos Fercher — PRY YN Y PREN
(rhaglen amrywiol yn cynnwys TRI CHYFAILL gan John Gwilym Jones)

Nos Iau, Nos Wener, Nos Sadwrn — THEATR BYPEDAU
Jane Phillips

# Dyddiadur Carcharor

**Y mae'r Gymraeg yn ennill tir ym myd busnes. Dyna'r argraff a roddir yn ail rifyn cylchgrawn *Y Swyddfa*, pris 30c, un o'r bargeinion gorau ar faes yr Eisteddfod (ar wahân i'r *Dinesydd Dyddiol*).**

Y mae'r Colegau Addysg Bellach o'r diwedd yn sylweddoli fod galw mawr am ysgrifenyddion Cymraeg a bod swyddi da ar eu cyfer. Dair blynedd yn ôl fe sefydlwyd Cwrs Ysgrifenyddol i rai ag o leiaf un pwnc lefel A neu raddedigion, yng Ngholeg Cartrefle, Wrecsam, ond ym mis Medi bydd Coleg Technegol Gwynedd yn sefydlu cwrs tebyg, i gyd yn Gymraeg. Mae Coleg Addysg Bellach Aberystwyth a Pholitechnig Cymru, Pontypridd, hefyd yn cynnig cyrsiau ar gyfer yr un math o fyfyrwyr ond bod eu cyrsiau hwy yn cynnwys cyfran o'r hyfforddiant trwy gyfrwng y Saesneg yn ogystal.

Cyhoeddir *Y Swyddfa* gan Athrofa Gogledd-dd Cymru, Coleg Cartrefle, dan nawdd Banc Barclays, ac un o'r erthyglau mwyaf diddorol sydd ynddo yw sgwrs am Y Cyfrifiadur rhwng Ivor Edmonds, Pennaeth Adran Ymchwil Pencadlys Cyfrifiadurol Banc Barclays a Fred Roberts. Sonnir am y cyfrifiadur mewn iaith naturiol, ddealladwy. Diweddir y sgwrs trwy son am lyfr George Orwell, *Nineteen Eighty Four*, ac am y peryglon a all godi o gam-ddefnyddio'r cyfrifiadur.

Ymysg yr erthyglau diddorol eraill y mae *Gweithio yn Saudi Arabia* (Glyn Jones, Cymro Americanaidd), *Chwilio am Angyles* (John Roberts, Trefnydd y Gogledd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru), *Cydweithio* (Dr. Aled Rhys Wiliam), a stori ddigri gan Geraint Ceidiog Hughes ar ddigwyddiad anarferol mewn cyngerdd pync roc, a ysgrifennwyd mewn llaw-fer — ond y mae allwedd iddi ar y diwedd.

Y mae hefyd yn cynnwys tudalennau cyntaf dyddiadur William John Williams, a garcharwyd am fis yng Ngharchar Caernarfon yn 1854 am fethu â thalu ei ddyledion.

Yr oedd yn ysgolfeistr ym Mhant Glas, Gwynedd, ar y pryd a dechreuir â hanes dau gwnstabl yn ei hebrwng o'r ysgol i'r carchar. Eiddo i Miss Judith A. Williams, athrawes yn Nhudweiliog, oedd y dyddiadur gwreiddiol, ond i Ronwy Rogers, Dinbych, y mae'r diolch am ddod ag ef i olau dydd. Pan oedd yn byw yn Nhudweiliog benthycodd y dyddiadur am ychydig a chafodd ganiatad y perchennog i'w gopio air am air yn orgraff y cyfnod yn cynnwys y symiau diddorol a oedd i'w cael ar ymyl rhai tudalennau lle y bu'r carcharor yn cyfrif faint o ddyddiau a oedd yn weddill o'r carchariad a faint o ddyledion a oedd ganddo i'w talu.

Bu farw Miss Williams yn 1970 ac yn y cyfamser aeth y dyddiadur gwreiddiol ar goll. Ni wyddai'r teulu amdano hyd yn ddiweddar ac ofer fu eu hymchwil amdano. Nid yw ychwaith ym meddiant Archifdy Gwynedd lle yr ystyrid dyddiadur o'r fath yn drysor gan nad oes yno yr un copi o ddyddiadur carcharor yn Gymraeg. Cyhoeddir gweddill y dyddiadur hwn gan *Y Ffynnon*, Papur Bro Eifionydd, sydd yn gwasanaethu ardal Pant Glas y cyfeirir ati yndo.

Er mai cylchgrawn i weithwyr mewn swyddfeydd yw *Y Swyddfa* yn bennaf y mae rhywbeth at ddant pawb ynddo ac ni ddylai unrhyw un adael maes yr Eisteddfod hebddo.

# Syr Alun ddim am symud

**Mewn cynhadledd i'r Wasg ar y maes ddoe, soniodd Syr Alun Talfan Davies am y pedair ffynhonnell y bydd yr Eisteddfod yn tynnu arnynt yn ariannôl, sef y Swyddfa Gymreig, y Cynghorau Lleol, Diwydiant a Chyngor y Celfyddydau. Un maes yr oedd angen gwario mwy arno oedd y gwobrau yn y cystadleuthau; dylid eu treblu, o leiaf, yn ei farn ef.**

Ymhelaethodd gryn dipyn ar y cyfraniad y gallai diwydiant ei wneud, gan ddweud mai ei obaith ef oedd y byddai diwydiant yn gwneud cyfraniad ariannol sylweddol i'r Eisteddfod o hyn ymlaen — gan grybwyll ffigur o ryw £100,000 y flwyddyn.

Yn yr un cywair, un datblygiad newydd yn yr Eisteddfod eleni yw'r cinio a roddir ar draul yr Eisteddfod heddiw i ddiwydianwyr y cylch, yn y gobaith o "werthu'r" Eisteddfod iddynt.

Ym marn Syr Alun, byddai'r Eisteddfod yn dal i dyfu mewn urddas a maint. Serch hynny, roedd ef yn anghytuno'n llwyr â lleoli'r Eisteddfod yn yr un lle; yn ei farn ef" gwell Eisteddfod mewn tent gynfas na stopio symud," meddai, yn yr unig ateb Cymraeg a gafwyd ganddo yn ystod y sesiwn.

Siom o'r mwyaf i las-ohebydd y DINESYDD DYDDIOL, yn ymweld â'i Chynhadledd Wasg gyntaf, oedd fod yr Eisteddfod yn dewis cynnal yr holl weithgareddau yno yn Saesneg. Hwyluso gwaith papurau a rhaglenni Saesneg ar draul rhai Cymraeg — a hynny gan Sefydliad a all ymffrostio yn un o'r gwasanaethau cyfieithu gorau yn unman, sef eiddo Teledu Harlech.

## CLECS ?&!?&!

Siom fawr oedd clywed fod y sioe *Rhwng Byw a Marw* gan y Coleg Cerdd a Drama a oedd i fod i'w pherfformio neithiwr, wedi ei chanslo am fod un o'r merched wedi colli ei llais. Lle mae'r ysbryd traddodiadol "the show must go on"? Siomwyd llawer gan y digwyddiad — fel y dywedodd un Eisteddfodwr blaenllaw wrth *Y Dinesydd Dyddiol*, "Rhwng byw a marw? Byddai *wedi marw* yn well disgrifiad o'r cwmni 'na!"

* * *

Rhaid adrodd y bore 'ma fod Steddfod wedi methu ddoe yn eu bwriad gwreiddiol o gadw'r maes yn rhydd o drafnidiaeth yn ystod y dydd. Bu'r bandiau pres wrthi'n chwythu eu trwmpedau eu hunain, gan wrthod symud eu bysus o'r tu allan i'r pafiliwn — "Os ydyn nhw'n mynd, rydyn ni'n mynd hefyd!" oedd sylw un o'r bandwyr — ac nid hwy oedd yr unig bechaduriaid.

* * *

Diddorol nodi fod gwraig un o bobl flaenllaw'r Eisteddfod wedi colli ei phais neithiwr wrth newid ar ôl i'r côr ganu — ac nid cyfeirio yr ydym at gylchgrawn merched sydd newydd ymddangos.

# Ar y donfedd anghywir

Roedd Rhiannon Rees, athrawes Ddrama yn Ysgol Gyfun Llanharri, ac un o gynhyrchwyr y pasiant TONFEDD '78 a welwyd yn y Pafiliwn neithiwr, mewn tipyn o gawl yn ystod y dydd. Hi oedd â gofal holl docynnau parcio staff yr ysgol; yn anffodus, fe'u gadawodd i gyd yn ddiogel mewn lori — wedi ei pharcio gryn bellter o'r Maes. Nid gweddus fyddai adrodd mewn papur mor barchus â'r *Dinesydd Dyddiol* yr hyn oedd gan ei chydweithwyr i'w ddweud wrthi pan ddarganfuwyd y ffaith hon!

# Dadl y Mudiad Meithrin

Cynhelir bore coffi'r Mudiad Ysgolion Meithrin ym mhabell HTV fore Mercher, Awst 9fed a gwahoddir pawb yno am baned a sgwrs oddeutu 10.30. Eir ymlaen oddi yno i Babell y Cymdeithasau i Gyfarfod y Mudiad Ysgolion Meithrin sef dadl ar y testun: "Daeth yn amser i'r Mudiad Ysgolion Meithrin derfynu fel mudiad gwirfoddol". Bydd Mr John Albert Evans yn agor y ddadl dros yr ochr Gadarnhaol, a Mr Dan Lyn James yn ateb dros yr ochr Nacaol. Croeso cynnes i bawb.

PLAID CYMRU MERTHYR TUDFUL

## Noson Fawreddog

**yn y Gwesty Baverstock**
**CINIO, DAWNS CABARET**

TRIBAN, Y DILIAU
ELINOR BENNETT (Telynores)
RHYDWEN WILLIAMS
ac eraill

Gwesteion:

Mr & Mrs Gwynfor Evans
Mr & Mrs Eurfyl ap Gwilym
Mr & Mrs Dafydd Wigley

**NOS WENER, 15fed MEDI, 1978**
**8.00 p.m. — 1.00 a.m.**

**Mynediad: £6.00**

*Tocynnau ar gael ym Mhabell y Ddraig Goch*

# BWYD Y BEIRDD



*Parhâd o'n cyfres ar dai bwyta Caerdydd a'r cylch.*

**TAFARN CEFN MABLY** — Pentref hardd, anghysbell braidd yw Cefn Mably, rhyw 3 milltir o Gasbach, ond cewch gyrraedd yno o'r maes yn gynt nag y byddai'r pellter yn awgrymu. Tafarn to gwellt sy'n cynnig bwyd plaen ond da. Mae'r bar nesaf at yr ystafell fwyta yn llawn cymeriadau cefn gwlad Gwent, ac yn dal ar agor tan 11 o'r gloch (10.30 yng Nghaerdydd). (*)

**CLWB SIROL LLANERWIG.** (St. Mellons Country Club) (ar yr A48). Bwyd Ffrengig mewn hen blasty. Awyrgylch tawel yn y prif adeilad ond os yn athletaidd cyfle i chwarae "squash" neu nofio yn y Canolfan Mabolgampau. (**)

**SAVASTANO'S** — Cyffordd Gabalfa. Bwyd Eidalaidd o safon anwastad, poblogaidd gyda'r BBC.

**POST HOUSE.** Pentwyn — Dyma'r agosaf o'r cyfan. Rhyw ymdrech i weini bwydydd Cymreig. (*)

**Y GROTTO** — Cylch y Dderwen Deg, Parc y Rhath. Bwyd rhyngwladol — Shaeneg mewn awyrgylch swnllyd ac ystafell gul fel compartment trên. Hwylus os dan eich blas — nid felly Lucullus.

**CONCA D'ORO.** Heol Wedal, Parc y Rhath. Bwyd Sicilaidd. Awyrgylch tawel a moethus. (*)








# CAMPIO

### PERYGL! — MAES GWERSYLLA

Pan ddaeth pedwar Llydawr ifanc i Gaerdydd ar gyfer yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, profasant groeso'r brifddinas yn fuan iawn. Dwynodd rhywun eu pabell. Llydawyr digalon iawn (o ardal Guingamp) ddaeth i dafarn 'Y Rhymni' ger carchar Caerdydd nos Sadwrn, heb le i aros, â'u heiddo wedi'i ddwyn.

Cawsant groeso twymgalon gan y meddwon Cymraeg sy'n mynychu'r dafarn, a lle i aros. Mae'n amlwg nad oedd enw drwg stad Llanrhymni wedi cyrraedd Llydaw eto. Ond efallai y dylai trefnwyr yr Eisteddfod wybod gwell? Ai hwn oedd y man mwyaf addas i'r maes gwersylla?

### TWRW CWRW

Erbyn diwedd yr wythnos ofnwn mai di-eiddo fydd nifer o wersyllwyr eraill hefyd. Nid yw hogia Llanrhymni'n colli cyfle am ysbail hawdd. Ofnwn hefyd y gallai fod trwbwl yma'n hwyr y nos rhwng y brodorion a'r Cymry Cymraeg.

Caiff llawer drafferth ofnadwy i gyrraedd eu pebyll ar y gorau. Mae'r lle tua pum milltir o'r canolfannau adloniant a'r tafarnau. Gallwn ddisgwyl hefyd lai o feddwon ifanc ar y maes, er gwell, er gwaeth gan fod y gwersyll, yn wahanol iawn i'r carafanau dosbarth-canol, filltiroedd o'r Eisteddfod hefyd.

### SOFFIA

Mae amryw o'r Cymry eu hunain wedi bod yn fwy hirben na'r trefnwyr. Maent yn gwersylla yn answyddogol yng Ngerddi Soffia sydd gryn dipyn nes at ddigwyddiadau gyda'r nos a phrif-ffyrdd y bysiau i'r Eisteddfod.

## ARFON A VAUGHAN

Darlledir dwy gerdd wedi eu comisiynu'n arbennig i ddathlu Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ar wasanaeth Clywch-y-Bardd Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Y beirdd yw Vaughan Hughes — gellir clywed ei gerdd ef, "Eisteddfod '78" o Awst 1af tan fore Awst 10fed.

Y mae awdur y gerdd arall, "Eisteddfod y Wig" yn adnabyddus iawn yng Nghaerdydd Deintydd ac englynwr o fri yw T. Arfon Williams, a chyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth, "Englynion Arfon" yn ddiweddar. Bydd ei gerdd ef ar yr awyr o Awst 10fed hyd Awst 19eg.

Os gellwch ddod o hyd i ffôn ar y maes sy'n gweithio, gellwch glywed y cerddi hyn ar y rhif Cwmbran (953) 4361.

## CIPOLWG AR HEN GAERDYDD

Mae arddangosfa ddiddorol iawn i'w gweld ar hyn o bryd ym Manc y Midland, Heol y Frenhines, Caerdydd, sef arddangosfa o hen luniau ac erthyglau sy'n ymwneud ag Eisteddfodau Caerdydd ers 1834. Mae'r arddangosfa wedi ei seilio ar lyfr Clive Betts, *A Oedd Heddwch* a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

### DIM SBWRIEL


*Sylwoch chi mor lân oedd y maes yn edrych ddoe (ar wahân i an babell!). Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Maes a Phebyll, aeth adrannau o'r Urdd yn gyfrifol am daclusio'r maes eleni — pob un a'i ddiwrnod. Tro byddin Adran Parc y Rhath oedd hi ddoe a chliriwyd pob tocyn hufen iâ, Daily Post a phob matsen oddi ar y maes.*

*Tro Adran yr Eglwys Newydd fydd hi heddiw i weithio dwy shifft o awr yr un heddiw. Fe fydd Llandaf yn ymgymryd â'r gwaith dydd Iau — Parc y Rhath eto dydd Iau ac Uwchadran Caerdydd dydd Gwener. Mae dydd Sadwrn ar hyn o bryd yn rhydd i unrhyw un a ddêl! Fe fydd y Steddfod yn rhoi cyfraniad hael i bob adran am eu llafur.*

*Emyr Davies, aelod o Bwyllgor y Maes yw'r Prif Wombl.*




gan Barri Morgan a P.R.Penarth




(i'w barhau)

# RHAGLEN HEDDIW... ...A HENO

| | |
|---|---|
| **Y PAFILIWN** | 2.30 Y CORONI<br>5.05 Prif Gystadleuaeth Corau Plant dan 19 |
| **Y BABELL LÊN** | 11.30 Rhaglen ar IOLO MORGANNWG<br>4.00 Ymryson y Beirdd (Llyn ac Eifionydd v Meirion) |
| **Y THEATR FACH** | 10.30 Beirniadaeth y Ffilm<br>11.30 Y TLWS DRAMA<br>12.00 Y Ddrama Deledu: Ysgrifennu (Gwenlyn Parry)<br>2.00 Theatr Caricature "ABC Caerdydd"<br>3.00 Y Llewod (gyda Dafydd Parry) |
| **Y STIWDIO GERDD** | 10.30 Trafodaeth ar gyngerdd dydd Llun<br>12.30 "Y Tonic Sol-Ffa" John Davies<br>1.00 Gwerthu tocynnau<br>2.00 Karl Orff<br>3.00 Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Telynau Cymru |
| **PABELL Y CYMDEITHASAU** | 10.00 UCAC "Dyfodol Addysg Gymraeg yn Ne-Ddwyrain Cymru,<br>11.30 Y Gymdeithas Wyddonol<br>1.30 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: cyfarfod i aelodau<br>3.00 Y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| **PABELL Y DYSGWYR** | 1.00 Sefydlu Cronfa Nant Gwrtheyrn<br>2.15 Telediad o'r Coroni<br>4.00 Twmpath Dawns |

| | |
|---|---|
| **Y SHERMAN<br>7.30** | Y Llinyn Arian,<br>RHYFEDDOD GWANWYN<br>Ffilm a meim |
| **YR ARENA<br>(Sherman)<br>7.15** | PRY YN Y PREN<br>Cwmni Theatr O |
| **Y THEATR NEWYDD<br>7.30** | Y TWR<br>Cwmni Theatr Cymru |
| **THEATR BUTE<br>Coleg Cerdd a Drama<br>7.30** | BLODEUWEDD<br>Cwmni Coleg y Brifysgol Aberystwyth |
| **Y PAFILIWN<br>7.30** | Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru |
| **TITO'S<br>10.30** | Geraint Jarman<br>a'r<br>Cynganeddwyr<br>Disgo'r Ddraig Goch |
| **ERAILL** | Top Rank, 8.00<br>PRIFROC PRIFDDINAS<br>Edward H. Dafis<br>* * * * * * *<br>Ysgubor Tŷ Mawr, Llysfaen. 10.30<br>Mynediad am Ddim<br>Margaret Williams<br>Y Diliau. |
| **CAPEL PEMBROKE TERRACE, CHURCHILL WAY** | HUNANGOFIANT RHYS LEWIS<br>Theatr yr Ymylon, 7.45 |
| **COLEG CYNCOED** | Grwp Siambr,<br>Coleg Cerdd a Drama |


# Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg

*GWASANAETH I GYMRU*

**Cynhyrchu Ffilmiau**
**Dosbarthu Ffilmiau**
**Y Sinema Deithiol**
**Cyfathrebu Cymdeithasol (GWELD)**
**Cefnogi talentau newydd**
**Cyfleusterau cynhyrchu annibynnol**

*Ysgrifennwch am fanylion i'r:*
*Bwrdd Ffilmiau Cymraeg,*
*Ffordd y Coleg,*
*Bangor.*
*Ffôn: (0248) 4687.*

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH SY23 3BU**

**Cyhoeddiadau cyson y Llyfrgell**

- Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru — sy'n ymddangos bob hanner blwyddyn. Tanysgrifiad blynyddol o 1979 ymlaen — £3.00.
- Rhestr Llawysgrifau sydd yn y Llyfrgell. Prisiau rhwng 20c a 40c y Rhan.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru — Crynodeb Byr o'i Hanes a'i Gweithgareddau. Pris 10c.
- Bibliotheca Celtica — cofrestr cyhoeddiadau sy'n berthnasol i bobl a ieithoedd Cymru a'r gwledydd Celtaidd. Prisiau yn amrywio.

**Llawer o hen gyhoeddiadau ar werth, gan gynnwys —**

- Cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol — amryw o flynyddoedd rhwng 1888 a 1942 25c a 15c
- Cofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig gan mwyaf a gyfansoddwyd yn y Iaith Gymraeg (1912) 20c
- Rhestr o Lyfrau a argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng y blynyddoed 1763 a 1807 (1916) 25c
- Rhestr o Lyfrau gan y Parch. William Williams Pantycelyn a argraffwyd rhwng 1744 a 1800 (1918) 25c
- 'Series of Old Welsh Texts', a olygwyd gan J. Gwenogfryn Evans:
  Poetry by Mediaeval Welsh Bards 55c
  Llyfr Iob 10c a 5c

Y mae cludiad yn ychwanegol at y prisiau uchod. Gellir cael manylion holl gyhoeddiadau'r Llyfrgell drwy anfon a y **Rhestrau Cyhoeddiadau** at Ysgrifennydd y Llyfrgell yn y cyfeiriad uchod neu ffonio 0970/3816-9, estyniad 206.


# A oes gennych blentyn dan oed ysgol?

A hoffech i'r plentyn dderbyn addysg feithrin Gymraeg?

Os nad oes gennych wybodaeth am Gylch Meithrin Cymraeg o fewn cyrraedd i chwi, anfonwch air atom, ac fe gewch y manylion am Swyddog Datblygu eich ardal, ac am y Cylch Meithrin agosaf i'ch plentyn ei fynychu.

*Anfoner at:-*
*Y CYFARWYDDWR,*
*MUDIAD YSGOLION MEITHRIN,*
*CANOLFAN YR URDD,*
*HEOL CONWY,*
*CANTON,*
*CAERDYDD.*
*FFÔN: 36113*

**CRASBOETH o'r LOLFA!!**




**Nofel antur/dditectif orau'r ganrif yn Gymraeg. £1.95**




**Cant o dafarnau gorau Cymru gyda llun a malu cachu am bob un. £1.25**





**Y Llewod diweddara! 85c yr un**

**Mynnwch ein catalog rhad.**

**Y Lolfa**

Talybont Ceredigion ffôn 304



**MISTAR URDD**
Aelod enwoca'r Urdd
ac arwr plant Cymru

Galwch heibio i'w weld
yn **SIOP MISTAR URDD**
**ar faes Eisteddfod Caerdydd**

CYMDEITHAS
**TAI GWYNEDD**

- Erbyn diwedd 1978, bydd y Gymdeithas elusennol hon wedi darparu 27 o gartrefi i deuluoedd ym mhentrefi Gwynedd.
- Gellwch ein helpu i ddarparu mwy drwy roi benthyg arian i'r Gymdeithas ar log o 6% — neu'n ddi-log.

*Manylion pellach oddi wrth:*

*Y Trefnydd, Cymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.*

Croeso i babell
**Cymorth Cristnogol**
i weld......
Arddangosfa gan Ysgolion Cyfun Llanhari a Rhydfelen
ac Ysgol Howells, Caerdydd;
hefyd lluniau o gynlluniau â gefnogwn.
i brynu......
Bathodynnau, Beiros, Defnyddiau a Chardiau Nadolig. Dewch heibio am 'baned o goffi yn ystod yr wythnos.
*SAFWN DROS GYFIAWNDER A DANGOSWN DOSTURI TUAG AT EIN CYD-DDYN.*

*Urdd Gobaith Cymru*
Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd yn cyflwyno
**RIFIW**
**'NEB YN DEILWNG'**
ARENA
THEATR Y SHERMAN
Nos Iau Awst 10
Nos Wener Awst 11
Nos Sadwrn Awst 12
am 10.30 o'r gloch
**MYNEDIAD £1**
Tocynnau ar gael o:-
Babell y Ganolfan ar y maes

***GWERIN***
Uned 74 ar y maes
Cofiwch alw

Siop:-
102 Heol Albany
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn: 496615

Elwyn Williams (Athro Coleg Cerdd a Ddrama Cymru, a chyn fyfyriwr Academi Cerddorol Frenhinol, Llundain, ac Academi Gerddorol Sant Cecilia, Rhufain) yn derbyn Disgyblion mewn piano, llais, arwain (corawl a cherddorfaol), a chyfeiliant. Hefyd hyfforddiant am weithgareddau arbennig e.e. eisteddfodau, a chyngherddau etc. Telerau rhesymol.
Am ragor o fanylion ysgrifennwch neu ffoniwch:
Elwyn Williams,
41 St. Benedict Cres.,
Heath, Caerdydd.
Ffôn: 611435.

**Siop Eifionydd**
Porthmadog

Pob math o
offeryniau cerdd.
Llyfrau a recordiau.
Ffôn: (0766) 2795



**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**(Argraffwyr),**
**Ffôn: (0222) 396262**

# Gwneud hanes

Mae Cwmni Cyhoeddi Cleglen Cyf yn falch o fod wedi darparu'r modd i alluogi papur dyddiol Cymraeg cyntaf Cymru, *Y Dinesydd Dyddiol*, i gael ei argraffu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**CLEGLEN + AP DAFYDD**

# LLUNIAU'R ŴYL




*Llydawyr o Naoned yn mwynhau wythnos yn y Steddfod*



*Band pres Ystalyfera, buddugwyr Dosbarth B ddoe*





*Parti dawns buddugol Brynaman*

DINESYDD DYDDIOL

# TAITH GERDDED: Drwy Galon Las y Ddinas

**Rhwng prif fynedfa Castell Caerdydd yn Heol y Castell a phont Canton, mae mynedfa i Barc Bute — gyferbyn â Gwesty'r "Centre".**



Wrth inni gerdded i mewn i'r parc ar y chwith mae afon Tâf yn rhedeg y tu draw i'r lawnt eang a'r coed, ac ar y dde mae meini'r Orsedd. Ochr draw i'r Meini mae muriau a thŵr cloc y Castell, ac yno yr oedd hen Borth Gorllewin y Castell. Gosodwyd plac ar wal y tŵr yn 1975 i ddynodi arwyddocâd hanesyddol y fan; trwy'r porth yma y gorymdeithiodd Owain Glyndŵr pan gipiodd Caerdydd yn 1404.

Mae dewis gennym: un ai fynd ar hyd y glaswellt a than y coed heibio i olion waliau a lloria teils yr hen Briordy, neu gellir cerdded drwy'r ardd flodau yn nes at lan yr afon. Y pensaer "Capability" Brown a gynlluniodd y parc i Ardalydd cyntaf Bute.

Ar ôl y tai gerddi yng nghanol Parc Bute, mae amryw o goed arbennig ac yna'r meysydd chwarae lle daw clybiau a chymdeithasau'r ddinas i ymarfer. Mae'r gwahanol lwybrau drwy'r parc yn cwrdd â'i gilydd wrth glwydi haearn ger rhuthr y dŵr ble gwnaed gored yn yr afon er mwyn cael dŵr i hen gamlas Morgannwg.

Gellir parhau i gerdded ar yr un ochr i'r afon ar ôl y clwydi a'r ored *heb* basio drwy dwnel o dan heol brysur A48 a chael golwg hardd ar Eglwys Gadeiriol Llandâf. Wrth gadw at lan yr afon a mynd drwy'r coed fe ddown allan yn agos i'r ffordd fawr wrth brif glwyd Parc Pontcanna, ac mae'n werth sylwi ar y rhodfa o goed yma. Yna, defnyddio'r bont droed i groesi'r heol brysur a gweld Coleg Technegol Llandâf o'n blaen; wedyn cerdded nes dod at groesfan i gerddedwyr a throi i'r llwybr ar y dde sy'n arwain rhwng y fynwent a chaeau chwarae Ysgol yr Eglwys Gadeiriol. Wrth nesau at yr Eglwys Gadeiriol ar y llaw dde mae mynedfa a chlwyd dan fwa cerfiedig o garreg, ac mae'n werth troi i mewn yno. O flaen yr Eglwys Gadeiriol mae'r glâs ble'r oedd Gerallt Gymro yn pregethu'r Drydedd Groesgad.

Gellir dychwelyd o Landâf drwy fynd yn ôl at yr A48 a chroesi'r ffordd at y groesfan i gerddedwyr ac yna ymlaen yn syth i mewn i gaeau Llandâf a cherdded heibio pwll nofio awyr agored a chwrs golffio Pontcanna. (Roedd Caeau Llandâf yn cael eu defnyddio i dyfu cnydau i gel bwyd yn ystod y ddau ryfel byd.)

Os am ddychwelyd i ganol y ddinas gellir cerdded ar hyd Heol yr Eglwys Gadeiriol gyda'i hadeiladau o oes Fictoria, neu droi i un o'r heolydd ar y chwith ac i mewn i ran newydd o Gaeau Pontcanna. Aneler yma am yr afon a thua'r de y tro yma a bydd y llwybrau troed yn ein harwain heibio i Faes criced Morgannwg, y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol a Phafiliwn Soffia.

DAFYDD GWYLON

# O'r Stiwdio Gerdd

**Llwyddodd ffyddloniaid cerddoriaeth i oresgyn seiniau'r bandiau pres a chychwynwyd gweithgareddau'r Stiwdio gyda chynulliad da iawn. Yr agorwr swyddogol oedd yr Athro Emeritws D.E. Parry-Williams, a gyflwynwyd gan Mr Arwel Hughes fel "yr addfwynaf o gerddorion". Llongyfarchodd Dr. Parry-Williams y Pwyllgor Cerdd ar lwyddo i greu Stiwdio Gerdd ac ar y rhaglen amrywiol. Gobeithiai y byddai hon yn fuan yn ennill ei phlwyf yn y Genedlaethol fel uned barhaol. Soniodd nad peth newydd oedd "Ystafell Gerdd" — yr oedd un gan uchelwyr y Llys yng nghyfnod Taliesin! Pwysleisiodd y dylai'r Stiwdio edrych *ymlaen* yn ogystal ag yn ôl, gan gynllunio ar gyfer offer priodol, e.e., at gerddoriaeth synthetig.**

Yn dilyn, cafwyd trafodaeth fywiog dros ben ar y Cyngerdd Operatig, dan ofal Mr Gerallt Evans. Un o'r nifer mawr o sylwadau a deilynga ei gofnodi yw eiddo Risiart Arwel y dylid anelu llawer mwy at gerddoriaeth gyfoes. Taro'r post!

Cafwyd beirniadaethau cyflawn ar yr Adran Gyfansoddi gan Mr David Harris, sy'n dysgu Cymraeg. Dyma'r canlyniadau:

Cylch o ran-ganeuon — Dr. Llifon Hughes Jones, Llundain.

Missa Brevis — neb yn deilwng.

Emyn-Don — rhannu'r wobr rhwng D. Rees Jones, Ystradgynlais a Maldwyn Williams, Troedyrhiw.

Cyfansoddi gwaith hir ar gyfer Cerddorfa, Côr, neu'r ddau — Martin Davies, Pum Heol, Llanelli.

Caiff yr olaf wobr o £350 (gyda diolch i Gyngor y Celfyddydau).

Daeth Caryl Roese a'i grwp i berfformio cerddoriaeth Karl Orff yn y prynhawn, a chafwyd gryn hwyl yn dysgu defnyddio'r offerynnau dieithr (i'r rhan fwyaf ohonom). Mae sesiwn o gerddoriaeth Orff bob dydd (a chroeso *arbennig* i blant)

HYWEL GRIFFITHS

# Cystadleuaeth Ffyrnig!

Fe aeth hi'n gystadleuaeth go boeth rhwng *Y Dydd* a *Report Wales* ddoe — na, nid baglu dros draed ei gilydd wrth geisio hel stori dda, ond troedio'n go heini mewn dawns werin! Yng nghystadleuaeth y Parti Dawns, roedd Glynnog Davies (*Y Dydd*) yn dawnsio ym mharti Aelwyd Brynaman, a Bob Symonds, gohebydd chwaraeon *Report Wales* ym mharti Aelwyd Caerdydd. Aelwyd Brynaman (*Y Dydd*, felly) a orfu ac Aelwyd Caerdydd (*Report Wales*) yn gorfod cymryd ail le yn y frwydr fewnol ffyrnig hon!

*NOS WENER, 11 AWST*
*am 7.30*
*yn*
*Eglwys Gadeiriol Babyddol,*
*Heol Siarl,*
CWMNI DRAMA
**YSGOL GYFUN**
**RHYDFELEN**
YN CYFLWYNO
**CWYMP AC**
**ADFERIAD DYN**

# ABC Caerdydd

**Yn dilyn llwyddiant cyflwyniad o "ABC" yn Eisteddfod Cricieth y mae Theatr Caricature ar hyn o bryd yn cyflwyno fersiwn newydd yng Nghaerdydd — "ABC o Gaerdydd a Bro Morgannwg". Gyda chymorth syniadau a lleisiau plant Ysgol Gwaelod y Garth ceir cyflwyniad digri a swynol o'r wyddor Gymraeg.**

Trwy hyn cafodd plant o Gymru benbaladr gyfle i ymgydnabyddu rhai o olygfeydd Caerdydd — y Castell a Sain Ffagan, a mannau Cyfagos fel Ynys y Barri a Phontypridd, gyda'i phont enwog a gwympodd i'r llawr ddwywaith cyn i'r pensaer, o'r diwedd, daro deuddeg.

Gydag "CH" am "Chwedl" cawsom ail-adrodd hyfryd o hanes Bugeilio'r Gwenith Gwyn, ond y ffefrynnau oedd "R" am "Rygbi", gyda chymeriadau tebyg i rai o greadigaethau Gren yn chwarae dull rhyfedd iawn o rygbi a llu o "Mr Urddau" am "U".

Gyda chyfuniad o ôl-daflunio, cartwnau symudol, pypedau-cysgodac actorion dyma brofiad gweledol cofiadwy. Dylai'r rhai a'i collodd dydd Llun ddal ar eu cyfle yn y Theatr Fach ar y maes am 2.00p.m., heddiw neu fory. Mae hanner-awr ddifyr yn eu haros — hyn ar gyfer unrhyw blentyn o dan 80 mlwydd oed.

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.

**antiques** UNLIMITED

PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH

7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:

**METELAU LLANDOW**

Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!
RHIF FFÔN:
LLANILLTUD FAWR
2756

**POSTERI CERDDI**

**Cynnig arbennig 3 am bris 2 cludiad am ddim**

Fel arfer £1.00 yr un yw pris posteri lliw 20″ × 30″. Am gyfnod byr yn unig rydym yn gwerthu drwy'r post 3 am £2.00. 3 am bris 2.

Ysgrifennwch i ddweud pa 3 poster yr hoffech gael ac anfonwch £2.00 (yn daladwy i ORIEL) at: ORIEL, Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd CF1 4ED

| | |
|---|---|
| A1 | Yr Wylan - Dafydd ap Gwilym |
| A2 | The Seagull - Glyn Jones |
| A3 | A Child's Christmas in Wales - Dylan Thomas |
| A4 | Dysgub y Dail - Crwys |
| A5 | Fern Hill - Dylan Thomas |
| A6 | Cynddylan on a Tractor - R S Thomas |
| A7 | Hon - T H Parry-Williams |
| A8 | Cofio - Waldo Williams |
| A9 | Eifionydd - R Williams Parry |
| A10 | Maggie Fach - Idris Davies |
| A11 | Carol y Crefftwr - Iorwerth C Peate |
| A12 | I Wallt Merch - Dafydd ab Edmwnd |
| A13 | Do you Remember 1926? - Idris Davies |
| A14 | Cara Wallia Derelicta - David Jones |
| A15 | Machlud - Alan Llwyd |
| A16 | Eisteddfod 1176-1976 |
| A17 | Aberdaron - Cynan |
| A18 | Y Fantell Fraith - I D Hooson |
| A19 | Eryr Pengwern |

**Special Offer 3 for the price of 2 post free**

Normally these full colour 20″ × 30″ posters retail at £1.00 each. For a limited period only we can offer them for sale, by post only, at 3 for £2.00. 3 for the price of 2.

Write, stating your choice of 3 posters and enclosing £2.00 (payable to ORIEL) to: ORIEL, Welsh Arts Council, 53 Charles Street, Cardiff CF1 4ED

**POEM POSTERS**

**Croeso i Gastell Caerdydd**

An invitation to dine at Cardiff Castle —



Estynnwn wahoddiad i chi i ymuno gyda ni mewn noson o ddifyrrwch a chroesawiaeth traddodiadol Gymraeg.

Venez passer une bonne soirée dans l'ambiance médiévale de nos anciennes traditions galloises de chants, de musique et de gaieté.

Komt u eens een avond met traditionele gastvrijheid van Wales bijwonen. Een avond van lekker eten en gezellige muziek in een romantische omgeving.

You are invited to share in an evening of Welsh hospitality - a delicious traditional feast accompanied by the lovely melodies of Wales and the ingenious compositions of the Tudor Court sung by the enchanting ladies of Morgannwg accompanied by harp and minstrels.

For bookings: Telephone CARDIFF 372737

MOUNT SORREL

**HEOL PORTHCERI**
**Y BARRI, DE MORGANNWG ☎740069**
****A.A. **R.A.C.**

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 gyda ystafelloedd ymolchi preifat)
Teledu Lliw, Radio a Ffôn ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU PRIODASAU CINIO A DAWNS

DEWCH I'R BARRI
unrhyw amser
Hawdd cyrraedd yno o faes yr Eisteddfod
3 milltir o Faesawyr y Rhŵs
8 milltir o Gaerdydd
Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus

**Taith Gymreig**
**Côr Gwladwriaeth**
**Hwngari**
(Côr Kodaly o Debrecen)

6ed i'r 25ain Tachwedd
1978

Cwmbran, Aberdâr, Caerdydd, Abertawe, Ystrad Mynach,
Porthcawl, Castell Nedd, Treorci,
Caerfyrddin, Aberystwyth, Crymych, Llwchwr,
Queensferry, Caernarfon, Porthmadog, Sir Fôn,
Conwy, Rhyl.

*Manylion gan:*
*Gyngor y Celfyddydau, 9 Stryd yr Amgueddfa,*
*Caerdydd CF1 3NX. Ffôn: 394711*

# Cymdeithas Adeiladu Nationwide
# Dyma'r Gymdeithas i bara am oes

## Bwrdd Rhanbarthol Cymru

Cadeirydd: Syr Harry Llewellyn CBE
Ardalydd Môn DL FSA Hon FRIBA FR HistS;
Syr Hugo Boothby Bt DL YH
Alex Gordon CBE PPRIBA LLD; T Mervyn Jones CBE MA

## Rheolwr Dros Gymru

Huw Lloyd Williams

## Swyddfeydd

Caerdydd
Casnewydd
Cwmbran
Penarth
Y Barri
Penybont Ar Ogwr
Pontypridd
Abertawe
Castell Nedd
Llanelli
Caerfyrddin
Hwlffordd
Aberystwyth
Bae Colwyn
Bangor
Wrecsam
Y Rhyl
Caerffili
Aberdar
Aberdaugleddau

**Nationwide**

## Y Gymdeithas Adeiladu am oes

Cronfeydd dros £3,000m.wedi ei awdurdodi fel buddsoddiad Ymddiriedaethol
Aelod o Gymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu

# CORNEL Y DYSGWYR

**Hyfryd dros ben oedd gweld y babell yn orlawn fore ddoe ar gyfer y seremoni agor. Cafwyd araith ysgubol gan y gŵr gwadd, Dr. Craig Bohren, a phrofiad i'w thrysori oedd clwyd yr Americanwr llon o Arizona yn ei morio hi yn y Gymraeg.**

Pwysleisiodd nad oedd yn hoff o'r term "dysgwyr" ac yr hoffai weld trane y term, gan fod "arlliw o israddoldeb" ynddo: 'dyw dysgwyr, meddai ef, ddim am gael eu hatgoffa, byth a beunydd mai dysgu'r iaith a wnaethon nhw. Gwell ganddo ef fyddai eu galw yn fabwysiadwyr yr iaith. Gwnaeth apêl ar i'r Cymry Cymraeg beidio â bodloni ar ganmol y dysgwyr o hirbell a pheidio â theimlo eu bod yn eu llygru eu hunain drwy siarad â rhai sy ddim yn Gymry Cymraeg dilys. Awgrymodd fel arwyddair i'r dysgwyr: "Gwell Cymraeg sathredig na Saesbeg caboledig". Mewn anerchiad ddidwyll iawn, anogodd Jill Harwood y dysgwyr (neu y mabwysiadwyr) i ddal ati ac i beidio a digalonni wrth ddod i gysylltiad â gwahanol dafodieithoedd. Roedd ganddi rai pethau pigog i'w dweud am agwedd afiach rhai Cymry Cymraeg at yr iaith. Calondid mawr oedd clywed Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith yn nodi mai'r babell hon oedd y bwysicaf ar y maes gan fod dyfodol yr holl bebyll eraill yn dibynnu ar lwyddiant yr hyn a wneir yn hon. Canodd Hawys Glyn James gân ddwyieithog ddifyr i lonni pawb.

Heddiw, am un o'r gloch, fe fydd cyfarfod o gryn bwys i ddyfodol dysgu'r Gymraeg sef cyfarfod sefydlu cronfa Nant Gwrtheyrn. Fel y gwyddoch, y bwriad ydy troi'r lle yn ganolfan breswyl i gyrsiau Cymraeg. Fe fydd rhai o'r Ymddiriedolwyr yn bresennol i egluro'r fenter a bydd y cynlluniau cyffrous sy eisoes wedi eu paratoi i'w gweld yn y babell. Yn ystod y cyfarfod fe fyddwn yn dangos y ffilm nodedig, Cwm Dialedd, trwy ganiatad caredig y BBC.

Hanner-awr cyn y cyfarfod hwn fe fydd Dafydd Iwan, yntau yn un o'r Ymddiriedolwyr, gwnan nhw i gyd aros i roi cefnogaeth gref i'r apêl ar ran Cronfa Nant Gwrtheyrn.

Wedi cynnwrf y coroni fe fydd cyfle i ymlacio drwy ddawnsio ar y twmpath yn wyneb haul llygad goleuni (gobeithio).



# WEITHIAU MAE'N SERCHOG ...

**Mae Cymorth i Fenywod yng Nghymru wedi bod mewn bodolaeth er tair blynedd bellach. Rhoddodd grant gan y Swyddfa Gymreig ym mis Ionawr gyfle i gyflogi trefnydd cenedlaethol. Er rhyw saith mis felly bu'n gweithredu ar raddfa eang.**

Pwrpas y mudiad yw darparu llochesau ar gyfer menywod sy'n cael eu curo gan eu gwŷr. Eisoes mae ganddynt saith yng Nghymru ac un grŵp ar ddeg, — un, serch hynny, yn y Gogledd. Tynnu sylw at y broblem yw swyddogaeth y trefnydd ac i'r perwyl hwnnw dangosir ffilm ym mhabell y mudiad o'r enw "Weithiau mae'n serchog."

Rhyw bymtheg munud yw ei hyd ac mae'n cyflwyno lloches a'r hyn sy'n digwydd yno. Pwsleisir y ffaith bod gwragedd yn aml yn gorfod goddef y curo oherwydd nad oes syniad ganddynt ble i fynd am gymorth. Ac eithrio'r trefnydd, gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y cyfan ac mae problemau ariannol yn cyfyngu'r gweithgarwch. Serch hynny, mae bodolaeth y mudiad yn cyflawni angen pendant. Ewch i wylio'r ffilm ac fe gewch eich darbwyllo yn yr un modd.

*DR CRAIG BOHREN*


AM GYRSIAU ADDYSG OEDOLION YNG

NGHANOLFAN OEDOLION YR EGLWYS NEWYDD

Anfonwch amlen wedi'r chyfeirio am raglen i Mr Colin Payne, Pennaeth y Dalgylch, Ysgol Eglwys Newydd (Isa), Glanynant, Caerdydd, neu ffoniwch 614392 neu 755034


## Saunders yn mwynhau

**'Roedd gŵr adnabyddus iawn yn bresennol yn rihyrsal Cwmni Coleg Aberystwyth o'r ddrama "Blodeuwedd" yn Theatr Bute yn y Coleg Cerdd a Drama brynhawn ddydd Llun. Gwelodd Saunders Lewis ei wyres, Siwan, yn actio'r prif ran, a dywedir iddo fwynhau'r perfformiad.**

Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, Caerdydd.